We also welcome the fact that so many enterprises in the tourism sector in South Powys have recently said that they would like to see bilingual operations in the Bannau Brycheiniog area. However, we note that **not one of them** has a Welsh section to their websites neither do they have plans to develop bilingual services. The Council already believes that the Welsh language belongs to everyone in our communities, and that our local Welsh names reflect the historical wealth, our heritage, our habitat and that it reflects our current sustainability priorities and lends a Sense of Place to the locality in question.

This Council declares:-

1. In view of this new enthusiasm in favour of bilingualism, we encourage the tourism sector to use native Welsh names for new commercial enterprises in order to maximise the principle of a Sense of Place, and thereby make the most of what makes the area in question so unique and special. Also that they make use of the free Welsh translation service, ‘Helo Blod’ available through the Welsh Government, in order to provide a bilingual service and image, and that they use Welsh food and drink produce.
2. We ask the Powys council tourism department and the partners in that sector, such as the Wales Tourism Alliance, Mid Wales Tourism and others to draw the attention of all tourism sector providers to the existence of the Helo Blod service and that they practise this as a matter of good practice.

3. We ask the planning department to adopt this principle when dealing with planning applications in this service area and to draw the attention of agents and applicants to the Helo Blod service.
4. We remind all tourism enterprises which receive public grants or a contract from Powys or the public sector, of the expectation that they acknowledge the Welsh language, and that they act in accordance with the Council's Language standards.
5. We encourage citizens to use historical, current and new Welsh names on houses and buildings and stop the practice of getting rid of Welsh house names."

By 56 votes to 1 it was

RESOLVED that this Council declares

- 1. In view of this new enthusiasm in favour of bilingualism, we encourage the tourism sector to use native Welsh names for new commercial enterprises in order to maximise the principle of a Sense of Place, and thereby make the most of what makes the area in question so unique and special. Also that they make use of the free Welsh translation service, 'Helo Blod' available through the Welsh Government, in order to provide a bilingual service and image, and that they use Welsh food and drink produce.**
- 2. We ask the Powys council tourism department and the partners in that sector, such as the Wales Tourism Alliance, Mid Wales Tourism and others to draw the attention of all tourism sector providers to the existence of the Helo Blod service and that they practise this as a matter of good practice.**
- 3. We ask the planning department to adopt this principle when dealing with planning applications in this service area and to draw the attention of agents and applicants to the Helo Blod service.**
- 4. We remind all tourism enterprises which receive public grants or a contract from Powys or the public sector, of the expectation that they acknowledge the Welsh language, and that they act in accordance with the Council's Language standards.**
- 5. We encourage citizens to use historical, current and new Welsh names on houses and buildings and stop the practice of getting rid of Welsh house names.**

13.	NOTICE OF MOTION - ARMED FORCES AND THE COST OF LIVING CRISIS
------------	--

Council considered the following motion proposed by County Councillor David Meredith and seconded by County Councillor Sarah Williams:

“Our armed forces have a long and proud history of service and dedication to this nation. From deployments to NATO’s eastern flank to keeping essential services running at home, service personnel continue to serve our country with courage and distinction. They are being let down by the UK Government. After a decade of real terms pay cuts, the cost of living crisis, and the delay to this year’s Armed Forces pay award we now see Service Personnel forced to use food banks, while forces charities and regimental associations continue to provide cost of living grants and food vouchers to veterans and their families.

Service personnel are routinely called upon to cover for a lack of resilience across the public sector and to provide cover for some essential services during industrial action. They do this in the dedicated and professional way we would expect from our forces. Without a right to strike it is the moral duty of their leaders to uphold the Armed Forces Covenant, and the responsibility of elected bodies to uphold their part of this obligation and insist that our service personnel and their families receive the support they need and deserve.

Therefore this council notes that:

- It is deeply concerning that service personnel are forced to turn to food banks.
- It is deeply concerning that forces charities and regimental associations continue to have to provide cost-of-living grants and food vouchers to veterans and their families.

This council believes that:

- We should condemn in the strongest terms the UK Government’s neglect of our service personnel.

This council calls on the UK Government to:

- Provide additional basic financial support to service personnel by capping food and accommodation charges for the next 12 months.”

By 43 votes to 8 with 3 abstentions it was

RESOLVED

1. This council notes that:

- **It is deeply concerning that service personnel are forced to turn to food banks.**
- **It is deeply concerning that forces charities and regimental associations continue to have to provide cost-of-living grants and food vouchers to veterans and their families.**

2. This council believes that:

- **We should condemn in the strongest terms the UK Government’s neglect of our service personnel.**

3. This council calls on the UK Government to:

- **Provide additional basic financial support to service personnel by capping food and accommodation charges for the next 12 months.**

14. NOTICE OF MOTION - CAR PARK REVIEW

The proposer advised that if the Cabinet Member for a Greener Powys confirmed she would have a cross party review, he would be prepared to withdraw his motion. The Cabinet Member for a Greener Powys gave that commitment and therefore the motion was withdrawn.

15. NOTICE OF MOTION - SCHOOL TRANSPORT APPEALS
--

Council debated the following motion proposed by County Councillor Lucy Roberts and seconded by County Councillor Gwynfor Thomas:

“In October 2022 the Council unanimously supported my motion to allow for greater flexibility around free school transport where it could be provided at no additional cost to the council. Since then I have been fighting a number of individual cases for residents who already have siblings at the school of their choice and where, for geographical reasons, there are buses running in two directions. Officers have argued that if they are flexible in one place, they will have to be flexible elsewhere too (surely that is the point if the criteria of no additional cost can be met) and have turned down appeals. The splitting of families is causing huge anxiety for parents and children and will severely limit the pupils’ opportunities to take part in after school activities. If members can’t have some sort of influence on the council’s decision-making process what is the point of being here.

I therefore call on members to support a motion to recommend to cabinet that school transport appeals are dealt with by a small cross-party group of councillors, supported by an officer who can guide members around any potential additional costs or issues that might arise from their decision, and that this should apply to any outstanding appeals for 2023 admissions and allow for a re-hearing of any stage 2 appeals for this year which have already been turned down.”

The Monitoring Officer advised that the motion was not asking for the policy to be changed, which would require a period of consultation, but to ask the Cabinet to consider that school transport appeals are dealt with by a small cross-party group of councillors.

By 28 votes to 21 with 5 abstentions it was

RESOLVED to recommend to cabinet that school transport appeals are dealt with by a small cross-party group of councillors, supported by an officer who can guide members around any potential additional costs or issues that might arise from their decision, and that this should apply to any outstanding appeals for 2023 admissions and allow for a re-

hearing of any stage 2 appeals for this year which have already been turned down.

16.	NOTICE OF MOTION - PROPOSED WELSH GOVERNMENT AND NATURAL RESOURCES WALES BAN ON THE RELEASE OF GAME BIRDS IN WALES
------------	---

Council considered the following motion proposed by County Councillor Aled Davies and seconded by County Councillor Iain McIntosh:

“Powys County Council calls on Welsh Government and Natural Resources Wales to withdraw their proposal to ban the release of gamebirds in Wales thus only allowing release by licence, which will hugely impact the people of Wales. There has not been sufficient evidence brought forward to warrant this proposal by NRW. We call on the Welsh Government to acknowledge the economic, conservation and well-being benefits game shooting brings to Wales, it’s value to rural communities, our heritage, culture and the Welsh language.”

The motion was lost by 16 votes to 29 with 7 abstentions.

17.	NOTICE OF MOTION - PHOSPHATES
------------	--------------------------------------

Council considered a motion proposed by County Councillor Gareth Ratcliffe and seconded by County Councillor Corrina Kenyon-Wade.

“This council and neighbouring authorities in Wales and England have faced severe planning restrictions due to the phosphate levels within our rivers. This is a national issue that is being passed around, and communities are being divided on who is responsible and how to deal with the issue.

We have heard numerous times that high concentrations of phosphorus in our rivers are due to agricultural practices, runoff from urban areas, leaking septic systems or discharges from sewage treatment plants, to name just a few that the public is citing as the cause. All of these systems are mainly operating within the laws that were granted to them, and that allows them to discharge into our rivers. We need to acknowledge they are operating within the rules set by the national government.

Whilst individually such developments are of minimal impact, collectively they cause massive damage to our environment, and impact the housing shortage issue facing our county as well as other developments.

We look at Natural Resources Wales, which, as the manager of our natural Welsh resources, should monitor our rivers. Its purpose is to "pursue sustainable management of natural resources" and "apply the principles of sustainable management of natural resources" as stated in the Environment (Wales) Act 2016.

The proper monitoring of water quality, and the enforcement of new environmental policy is going to be key in reducing the impact of phosphates on our rivers. NRW is said to need to employ an extra 85 staff to achieve the necessary robust monitoring service, but they need the funding from Welsh

Government to be able to do this. Powys County Council itself does not have the power or capacity to effect change. Homes are not being built, communities in Powys are at a standstill, and something needs to be done to support them.

The motion

1. We call on the Welsh Government to set a clear monitoring framework for river pollution.
2. We call on National Governments to accelerate funding for our monitoring bodies like NRW to allow them to monitor and enforce safe levels within our rivers.
3. Call on Welsh Water to accelerate its investment in the sewage system and their upgrade programme.”

Councillor Ratcliffe explained that he was happy to accept the following amendment proposed by County Councillor Gareth D Jones and seconded by County Councillor Gwynfor Thomas:

Add to point 3 the text in bold 3. “Call on Welsh Water and **Hafren Dyfrdwy** to accelerate its investment in the sewage system and their upgrade programme.”

Add a point 4: “Call on Welsh Water and Hafren Dyfrdwy to accelerate its investment in replacing the current supply pipe network to eliminate the use of orthophosphate.”

A further amendment to point 1 was proposed and seconded
“We call on the Welsh Government to set a clear monitoring framework for river pollution and carry out a meaningful assessment of phosphate contributions from natural and artificial sources.”

By 51 votes to 0 it was

RESOLVED that we call on the Welsh Government to set a clear monitoring framework for river pollution and carry out a meaningful assessment of phosphate contributions from natural and artificial sources.

This became the substantive motion and it was unanimously

RESOLVED that

1. **We call on the Welsh Government to set a clear monitoring framework for river pollution and carry out a meaningful assessment of phosphate contributions from natural and artificial sources.**
2. **We call on National Governments to accelerate funding for our monitoring bodies like NRW to allow them to monitor and enforce safe levels within our rivers.**
3. **Call on Welsh Water and Hafren Dyfrdwy to accelerate investment in the sewage system and their upgrade programme.**

- 4. Call on Welsh Water and Hafren Dyfrdwy to accelerate investment in replacing the current supply pipe network to eliminate the use of orthophosphate.**

**County Councillor J Wilkinson
Chair**

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWD YN NEUADD Y SIR
AC AR ZOOM DDYDD IAU, 20 GORFFENNAF 2023**

YN BRESENNOL

Cynghorydd Sir J Wilkinson (Cadeirydd)

County Councillors G W Ratcliffe, D Bebb, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighthouse, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, I Harrison, K Healy, H Hulme, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, J Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, A Williams, D H Williams, J M Williams and S L Williams

1. YMDDIHEURIADAU

Apologies for absence were received from County Councillors B Baynham, A Cartwright, L George, J Gibson-Watt, P E Lewis, G Mitchell and E Roderick.

2. COFNODION

Awdurdodwyd i'r Cadeirydd lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2 Mawrth a 18 Mai 2023 fel cofnodion cywir.

3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Roedd gan bob Aelod fuddiant personol ond nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 11, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Dyweddodd yr Is-gadeirydd ei fod yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd a oedd yn mynychu digwyddiad gyda E.F. Y Brenin yn Aberhonddu.

Ar ran y Cyngor mynegodd gydymdeimlad i'r Cynghorydd Sir Lucy Roberts am farwolaeth ei mam.

Llongyfarchodd hefyd y Cynghorydd Sir Jackie Charlton ar ei phen-blwydd.

5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd fod yr Arweinydd hefyd yn mynychu'r digwyddiad gyda'r Brenin yn Aberhonddu.

Dyweddodd ei fod, ynghyd â'r Arweinydd, wedi mynd i Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri ac wedi lansio taflen yn annog pobl sy'n symud i'r sir o'r tu allan i

Gymru i ddysgu Cymraeg. Roedden nhw'n edrych ymlaen at groesawu'r Eisteddfod i Meifod yn 2024.

Byddai'r Cyngor yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau yn Sioe Frenhinol Cymru yr wythnos ganlynol, gan gynnwys cyhoeddiad ar y Cynllun Twf a chyflwyniad ar ddod yn Gyngor Noddfa.

Llongyfarchodd Ysgol Fabanod Mount Street am fod yr ysgol gyntaf yng Nghymru i ennill gwobr aur Ysgolion sy'n Dda i'r Lluoedd Arfog am eu hamgylchedd croesawgar a chynhwysol i blant personél y lluoedd arfog. Roedd y Cyngor wedi cael ei gynrychioli ym mharêd Pride Cymru yng Nghaerdydd fel rhan o rwydwaith y Cyngor Balch. Diolchodd i'r Cynghorwyr Jackie Charlton a Liz Rijnenberg a'u swyddogion am eu gwaith yn dechrau'r broses i'r Cyngor ddod yn Gyngor Noddfa achrededig ac roedd yn cydnabod gwaith y grŵp Noddfa i Ffoaduriaid am y gefnogaeth a ddarparwyd ganddynt i ffoaduriaid.

6. BRIFF Y PRIF WEITHREDWR

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro at y gwobrau staff a gynhaliwyd gan gydnabod gwaith da staff. Roedd yn falch o nodi'r gwobrau i brosiect adeiladu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng gan Ragoriaeth Adeiladu Cymru ac Adeilad Addysg Cymru. Nododd hefyd fod Rheoli Adeiladu wedi'i ail-achredu a diolchodd i'r staff oedd yn rhan o'r broses honno.

Dywedodd y byddai ymweliad diweddar Estyn yn cael ei adrodd yn ffurfiol yn ôl i'r Cabinet a Chraffu ond bod yr ymweliad wedi cydnabod bod llawer o waith da yn mynd rhagddo a meysydd eraill lle gellid gwneud gwelliannau. Dywedodd hefyd bod gweithdrefn datrys ffurfiol wedi'i chytuno gyda'r Bwrdd Iechyd.

Yn olaf, dywedodd fod Arolygiaeth Gofal Cymru wedi bygwth nifer o awdurdodau lleol gydag ymchwiliad troseddol ynghylch lleoli plant ag anghenion cymhleth mewn lleoedd anghofrestredig ond diogel. Nid oedd Cyngor Sir Powys yn un o'r awdurdodau hynny, ond roedd yn ymwneud â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio datrys hyn mewn modd mwy priodol. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro ei fod ef ac uwch swyddogion perthnasol yn rhan o'r gwaith pan oedd yn rhaid gwneud penderfyniadau i leoli plant mewn lleoedd anghofrestredig.

7. CWESTIYNAU CYHOEDDUS

7.1 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys Gysylltiedig gan David Williams

Beth all preswylwyr ei wneud i atal Cyngor Sir Powys rhag rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer unedau dofednod dwys newydd ac estyniadau, yng ngoleuni'r difrod y maent yn ei achosi i gyrsiau dŵr a'r potensial i ledaenu ffliw adar?

Ymateb

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon sydd gan lawer o drigolion, ac yn cydnabod yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynigion Unedau Dofednod Dwys (IPU). Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu

ar geisiadau cynllunio pan fydd y Cyngor yn dilyn deddfwriaeth, rheoliadau, polisi cynllunio a chanllawiau cyffredinol sydd ar waith pan wneir penderfyniad. Mae sylwadau a wneir gan ymgynghoreion statudol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hefyd yn cael eu trafod, o ystyried eu harbenigedd a'u statws cyfreithiol o ran caniatáu amgylcheddol.

Er y gall preswylwyr wneud sylwadau ar unrhyw gais cynllunio, bydd eu sylwadau a'u pryderon yn cael eu pwysu, ynghyd ag ystyriaethau eraill, am "berthnasedd" yn erbyn y cyd-destun cyfreithiol a pholisi cyffredinol.

Mae nifer o drigolion wedi galw am atal datblygiadau o'r fath ac am roi gohiriad deddfwriaethol ar waith. Fodd bynnag, mae hyn yn fater i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n rhywbeth y gallai Cyngor Sir Powys ei wneud ar ei phen ei hun. Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol gynnwys polisi cynllunio ar unedau da byw dwys yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd, ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn edrych arno mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r fframweithiau polisi cyfreithiol, rheoleiddiol neu genedlaethol.

Yn y cyfamser, rydym wedi derbyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar na ddylem gymeradwyo nifer o geisiadau o'r fath sydd gennym, nes eu bod wedi egluro eu barn a ydynt am eu galw i mewn i'w pennu eu hunain. Mae hyn yn gyfystyr â rhyw 13 cais yn cael eu dal ar encil ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw gymeradwyaeth gynllunio wedi cael ei rhoi gan Gyngor Powys am IPU am oddeutu 12 mis.

Cwestiwn Atodol

Gofynnodd Dr Williams, pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu peidio â galw'r 13 cais i mewn, a fyddai'r Cyngor yn ystyried effaith amgylcheddol gronol neu a fyddent yn delio â phob cais ar wahân gyda'r Pwyllgor Cynllunio, a oedd, yn ôl ef, yn rhagfarnlyd tuag at ffermio, dadlau a phleidleisio ar geisiadau yn unigol a'r pleidleisiau a gofnodir?

Mewn ymateb esboniodd yr Aelod Cabinet dros Powys Gysylltiedig na allai awdurdod cynllunio lleol gynghori trigolion ynghylch sut i gael canlyniad gan fod yn rhaid ystyried pob cais ar sail ei rinweddau ei hun. Roedd yn rhaid i'r rhai oedd yn cynghori'r pwyllgor fod yn annibynnol ac yn wrthrychol.

Eglurodd fod y Cyngor eisoes yn edrych ar yr effaith gronol ar effeithiau lledaenu tail ieir ar dir dalgylchoedd yr afon. Roedd y mater o ledaenu tail yn fater i Gyfoeth Naturiol Cymru a roddodd gyngor i'r Pwyllgor Cynllunio a byddai'r Pwyllgor mewn perygl o her cyfreithiol pe bai'n anwybyddu'r cyngor hwnnw.

Eglurodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Trwyddedu a Hawliau Tramwy Tacsî fod y Pwyllgor yn cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd. Bu'r Pwyllgor bob amser yn ystyried ceisiadau gyda meddwl agored ac nid oeddent yn rhagfarnlyd tuag at ffermio.

7.2 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys Wyrddach gan Alison Jones

Mae'n siŵr bod hyn wedi cael ei godi o'r blaen. Fodd bynnag, nid yw byth yn fy synnu cyn lleied mae Powys yn ei wneud i gefnogi ein trefi a'n busnesau lleol yn y cyfnod cyn y Nadolig.

Rwy'n darllen/clywed cynghorau eraill yn rheolaidd sy'n cynnig cynllun parcio am ddim er enghraifft ar ddydd Sadwrn ym mis Rhagfyr. Oni allai Powys ddangos rhyw ewyllys da a gwneud yr un peth eleni os gwelwch yn dda?

Ymateb

Diolch yn fawr, Mrs Jones, am eich cwestiwn sy'n amserol iawn.

Mae darparu parcio am ddim cyn y Nadolig wedi bod o fudd yn y gorffennol a thros y blynyddoedd darparwyd cyllid i ddarparu'r cynllun hwn. Cafodd ei leihau yn y weinyddiaeth ddiwethaf a daeth i ben yn y pen draw.

Rwy'n ceisio adolygu'r gwasanaeth parcio yn yr hydref ac rwy'n ystyried ffyrdd o asesu'r posibilrwydd o ariannu'r fenter hon eto. Os oes arian sbâr ar gael, byddaf yn ystyried adfer y fenter hon. Roedd yn arbennig o boblogaidd yn ein Trefi Marchnad fel Llanfair-ym-muallt.

Cwestiwn Atodol

Gofynnodd y cwestiwn atodol am y diffyg parcio arhosiad byr yn Llanfair-ym-muallt a dywedodd yr holwr ei fod yn atal pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio busnesau lleol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Bowys Wyrddach y byddai'r Cyngor yn trafod parcio ceir yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Dywedodd y byddai adolygiad o barcio ceir, gan gynnwys parcio am ddim adeg y Nadolig yr hoffai ei weld yn cael ei adfer os oedd cyllid yn caniatáu.

7.3 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys Mwy Llewyrchus gan Colin Olivant

Yma ym Mhowys mae gennym Ysgolion gwych sy'n addysgu plant ag Anghenion Arbennig, fodd bynnag, mae hynny cyn belled ag y mae'n ymddangos. Unwaith y bydd plant yn gadael mae'r opsiynau ysgolion hyn yn gyfyngedig o ran colegau preswyl, mae'n rhaid i ni neidio trwy lawer o gylchoedd a chwblhau gwaith papur diddiwedd dim ond i gael lle addas sydd y tu allan i'r Sir. A yw Powys wedi ystyried cael Coleg preswyl fel Coleg Elidyr yn Llanymddyfri ym Mhowys lle gall plant ag Anghenion Addysgol Arbennig fynychu? Byddai hyn yn lleihau'r straen a'r gofid y mae'n rhaid i rieni eu hwynebu wrth wneud cais a chael gwybod ei fod allan o'r Sir, mae hyn yn fy marn i yn cyfyngu ar addysg bellach i blant AAA. Rwy'n deall bod Powys eisiau i'w harian aros ym Mhowys ond nid yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cynnig yr hyn sydd ei angen drwy'r amser ac fel mae'r teitl yn dweud "Castell-nedd Port Talbot" mae'r arian yn dal i fynd allan o'r Sir.

Ymateb

Gwnaed y penderfyniadau ar gyfer rhoi lleoliad mewn ysgol/coleg arbennig preswyl gan Lywodraeth Cymru. Byddai'n rhaid i'r datganiad o angen addysgol arbennig person ifanc ddod i ben, byddai asesiad Adran 1.40 yn cael ei gynnal a byddai cynllun dysgu a sgiliau yn cael ei greu gan Gyrfa Cymru, a byddai angen cyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru ar gyfer penderfyniad a chymeradwyaeth. Cafodd y cyllid ei gynnal ar lefel Llywodraeth Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl y cysylltwyd â phob coleg lleol i holi am eu gallu i ddiwallu angen pobl ifanc, a byddai trafodaethau ychwanegol yn cael eu cynnal gyda gwasanaeth gofal cymdeithasol awdurdodau lleol i benderfynu a oedd angen agwedd breswyl y ddarpariaeth. Ni wnaed y penderfyniad terfynol gan yr awdurdod lleol.

Wrth i ni drosglwyddo i'r Ddeddf ADY newydd* a'r Cod **, mae'r broses benderfynu a'r dyraniad cyllid wedi'u rhoi i'r awdurdod lleol. Mae'r arian yn cael ei ddsbarthu ar fformiwla a ddyfeisiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae colegau Addysg Bellach yn eiddo annibynnol, ac nid ydynt yn rhan o'r portffolio Addysg mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, nac ym Mhowys. Ar hyn o bryd does dim cynlluniau i ddatblygu coleg preswyl arbenigol ym Mhowys. Mae nifer y bobl ifanc sy'n bodloni'r meini prawf a'r trothwy ar gyfer lle mewn coleg arbenigol preswyl yn fach iawn; felly, ar hyn o bryd, ni fyddai'n gost effeithiol darparu'r gwasanaeth hwn yn fewnol.

Gall dysgwyr ym Mhowys sydd â datganiad o angen addysgol arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol o fewn y Ddeddf newydd ac sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer mynychu un o'n hysgolion arbennig fynychu addysg ôl-16 yn yr ysgolion hyn nes eu bod yn 19 oed. Mae'r Tîm Cynhwysiant a Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithio gydag ysgolion i wella'r cynnig ar ôl 16 ar gyfer dysgwyr ag ADY, ac mae hyn yn ffurfio ffrwd waith fawr ar y cynllun gwasanaeth.

Mae ein tîm ADY ar gael i roi cymorth a chefnogaeth bellach os bydd ei angen.

* Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021)

Cwestiwn Atodol

Gofynnodd y cwestiwn atodol am y niferoedd a oedd wedi gwneud cais am leoedd ac a fyddai'n fwy defnyddiol i ddarganfod nifer y bobl ifanc a fyddai'n dymuno mynychu lleoliad ym Mhowys.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Bowys Mwy Llewyrchus nad oedd derbyniadau i ysgolion a cholegau arbennig preswyl yn seiliedig ar yr un broses â derbyniadau i ysgolion ond ar gymhlethdod yr angen. Tan yn ddiweddar roedd Llywodraeth Cymru yn gwneud y penderfyniadau hyn, ond o fis Medi 2023 byddai'r awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau. Roedd y niferoedd sy'n ymgeisio yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi amrywio o 14 - 22. Dywedodd y byddai'r Timau Ysgolion yn hapus i drafod unrhyw faterion gyda'r holwr i geisio dod o hyd i ddatrysiad.

Mae trigolion lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, boed hynny'n brynwyr tro cyntaf neu'n deuluoedd sydd angen ehangu. Nid oes unrhyw ddatblygiadau tai fforddiadwy newydd, nac unrhyw eiddo presennol ar gael.

Mae eiddo sydd ar y farchnad yn fwy na galluoedd ariannol y rhai sy'n gweithio yn yr ardal. Mae eiddo 3 ystafell wely yn nhref Y Gelli Gandryll yn dechrau ar £300k, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn agosach neu dros £400k. Os cymerwch gyflog teulu dau oedolyn ar gyfartaledd, a blaendal mawr, mae'n dal yn amhosibl ei gyrraedd.

Mae eiddo sydd o fewn y gyllideb, fel arfer cyn-gartrefi cyngor, hefyd yn anodd iawn i forgeisio, gyda'r rhan fwyaf o fenthycwyr yn gwrthod ceisiadau. Ymhlith y rhesymau a ddyfynnir mae isadeiledd, lleoliad ac agosrwydd at unedau diwydiannol. Os yw'r unig dai fforddiadwy yn amhosib cael morgais arnynt, nid ydynt yn hygyrch!

Ar ben hyn, gan fod gan y rhan fwyaf o'r teuluoedd hyn gynilon ariannol, nid ydynt yn gallu cael tai cymdeithasol (am lawer o resymau). Hefyd, mae rhentu preifat ar gyfer cartrefi teulu mwy o faint yn llawer uwch na fforddiadwyedd. Felly, maent yn aml yn cael eu gadael heb fawr ddim dewis ond symud allan o'r ardal, a fydd yn cael effeithiau cymdeithasol ac economaidd enfawr ar gymunedau.

Sut bydd Cyngor Sir Powys yn helpu teuluoedd lleol i aros yn eu trefi cartref?

Ymateb:

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i adeiladu dyfodol cryfach, tecach a gwyrddach i'n cymunedau.

Mae'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â heriau fforddiadwyedd tai ym Mhowys. Mae cost tai wedi codi'n rhannol oherwydd gwahaniaeth hirdymor rhwng yr angen am gartrefi, i'w rhentu gyda thenantiaethau diogel am rent fforddiadwy ac i brynu, a nifer y tai ychwanegol a newydd sy'n cael eu hadeiladu. Mae twf prynu-osod wedi gwaethygu'r broblem y mae pobl yn ei hwynebu ymhellach, trwy gynyddu pris cartrefi sydd yn aml yn fwyaf addas i brynwyr tro cyntaf a phrynwyr cartrefi gydag incwm isel a chanolig.

Yn 1992, gosododd llywodraeth y DU ohiriad ar allu cynghorau lleol i adeiladu cartrefi newydd. Daeth hyn i ben yn 2012-2013 ac ers hynny mae Cyngor Sir Powys unwaith eto wedi dechrau adeiladu cartrefi newydd i bobl leol eu rhentu am renti gwirioneddol fforddiadwy a phob un wedi'i osod ar gontractau diogel. Ers i'r Cyngor ddechrau adeiladu cartrefi eto wedi'r bwlch deng mlynedd ar hugain hwnnw o beidio â chael adeiladu cartrefi, mae 129 o dai cyngor wedi'u cwblhau ym Mhowys.

Y targed yn 'Gryfach, Tecach, Gwyrddach' yw ychwanegu 350 o gartrefi newydd at gyfanswm stoc y Cyngor erbyn 2031. Rhwng 2026 a 2031, mae rhaglen ddatblygu'r Cyngor - gan ystyried tir diogel a heb ei sicrhau - eisoes yn 217 o gartrefi newydd. Mae hyn yn cynnwys banciau tir diogel sy'n gallu cefnogi

adeiladu 112 o gartrefi unwaith y bydd rheolaeth ffosffadau mewn cymunedau yr effeithir arnynt yn cael ei ddatrys. Disgwylir i safleoedd a chyfleoedd ychwanegol ddod ar gael rhwng nawr a 2031.

Mae symud ymlaen â'r holl ddatblygiadau newydd yn dibynnu ar ddigwyddiadau sydd yn aml y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth Tai. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau safleoedd datblygu hyfyw, casglu'r holl gydsyniadau cynllunio a rheoleiddio eraill, cael amrywiaeth o gontractwyr adeiladu cymwys a sefydlog sy'n gallu ac yn barod i adeiladu cartrefi newydd, cadwyni cyflenwi gallu darparu cyflenwadau cost-effeithiol ac amserol o ddeunyddiau a chhydrannau, a rheoli cynnydd mewn chwyddiant costau adeiladu. O bwysigrwydd hanfodol bydd mynd i'r afael â'r heriau i ddatblygiad newydd a achosir gan yr angen i wella rheolaeth ffosffad yn nalgylchoedd Afon Gwy ac Afon Wysg yn ne Powys. O dan y cynigion presennol ar gyfer gwella gallu a chapasiti gwaith trin dŵr, dylid datrys hyn erbyn 2025-2026 ar gyfer Afon Gwy a 2027-2028 ar gyfer Afon Wysg.

Mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru hefyd yn rhan hanfodol o'n rhaglen gynyddol i gynyddu nifer y cartrefi sy'n fforddiadwy i bobl ym Mhowys, drwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.

Mae Powys yn sicrhau cefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i helpu i sicrhau y gellir gosod cartrefi newydd, a ddatblygwyd gan y Cyngor a chymdeithasau tai, gyda rhenti sy'n fforddiadwy i bobl leol.

Mae Cyngor Sir Powys wedi sefydlu polisi'r Pecyn Bargen i annog datblygwyr i ddod â datblygiadau tai cymdeithasol wedi'u cwblhau ac sy'n barod i'w symud i'r Cyngor. Mae'r datblygwr yn dylunio ac yn adeiladu'r cartrefi, i safon sy'n dderbyniol i'r Cyngor, gyda'r Cyngor yn cael yr opsiwn i brynu ar ôl eu cwblhau am bris y cytunwyd arno ar y cyd. Mae'r dull hwn yn rhyddhau ein gallu ein hunain i ganolbwyntio ar y cynlluniau hynny lle rydym yn prynu'r tir ac yn datblygu ein hunain yn uniongyrchol. Yn 2022-2023, rydym wedi ychwanegu saith cartref rhent cymdeithasol gan ddefnyddio ein model Pecyn Bargen.

Bydd ychwanegiadau pellach at y tai cymdeithasol sydd ar gael i bobl sy'n byw ym Mhowys yn cael eu sicrhau drwy barhau â'r rhaglen caffael eiddo. Bydd y niferoedd sydd i'w prynu yn dibynnu ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y farchnad dai a sut mae'r eiddo'n cyd-fynd ag anghenion tai lleol ac yn cynrychioli gwerth tymor hir am arian. Yn 2018-2019, prynwyd 21 o gartrefi, ac yna pedwar yn 2019-2020, tri yn 2020-2021 a chwech rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2022.

Mae cymdeithasau tai sy'n gweithio ym Mhowys yn datblygu amrywiaeth o gynlluniau perchnogaeth tai i helpu i gefnogi pobl i berchnogaeth cartrefi, ochr yn ochr â'u datblygiadau o gartrefi i'w rhentu am brisiau fforddiadwy. Bydd y Cyngor yn archwilio sut i gynnig mwy o opsiynau ar gyfer cynyddu'r ystod o opsiynau perchnogaeth cartref cost isel y gellir eu cynnig i bobl Powys.

Yn 2023-2024, byddwn yn cynyddu ein gwaith i aildefnyddio eiddo gwag fel cartrefi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Grant Cartrefi Gwag Llywodraeth Cymru ar gael i bobl ym Mhowys sy'n darparu cymorth ariannol i bobl brynu a defnyddio eiddo gwag hirdymor fel cartref iddynt hwy a'u teuluoedd.

Rydym yn creu ein Cynllun Datblygu Lleol newydd, a fydd yn cefnogi nodau'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol hwn i wneud Powys yn gryfach,

yn decach ac yn wyrddach. Bydd y cynllun yn siapio dyfodol Powys gan y bydd yn amlinellu cyfleoedd ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y sir yn y dyfodol. Mae'n ystyried amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried yr effaith ar y blaned, bod tai yn cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd lle mae pobl angen neu eisiau byw, a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y manau lle mae eu hangen.

Cwestiwn Atodol

Gofynnodd Phoebe Jenkins sut y byddai'r cyngor yn mynd i'r afael â fforddiadwyedd cartrefi ym Mhowys ac a allai hyn gynnwys ymestyn prynu eiddo y tu hwnt i rent cymdeithasol i greu cyfleoedd perchnogaeth cartref a rennir neu a allai Powys weithredu cynllun i hysbysebu eiddo sydd ar gael sy'n addas ar gyfer y grant tai gwag i ddarparu brynwyr.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Powys Tecach mai nod rhaglen gaffael y Cyngor oedd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi a lleihau pwysau chwyddiant. Roedd y Cyngor hefyd yn edrych ar yr hyn y gallai ei wneud i'r rhai a oedd am brynu eu cartref eu hunain gan gynnwys cydberchnogaeth ac opsiynau rhannu ecwiti. Roedd y Cyngor newydd lansio cynllun grant eiddo gwag oedd yn cynnig help i'r rhai oedd yn dymuno prynu eiddo gwag oedd angen gwaith.

8. TROSGLWYDDIADAU REFENIW

Trafododd y Cabinet ddau gais am drosglwyddiad:

- a. Cronfa drafndiaeth - Roedd y Gwasanaethau Rheoli Fflyd wedi gofyn am danwariant yn erbyn taliadau dibrisiant o £685,455 gyda chyfraniad ychwanegol i'r gronfa wrth gefn amnewid cerbydau i gynorthwyo i reoli'r pwysau cynyddol ar y gronfa drafndiaeth sy'n deillio o chwyddiant sylweddol ar gostau prynu.
- b. Roedd gan yr alldro cyllideb yswiriant gronfeydd heb eu gwario o £906,707, y gofynnwyd iddynt gael eu trosglwyddo i'r gronfa yswiriant benodol. Roedd y gronfa wrth gefn wedi lleihau gan fod gormodedd hawliad wedi'i fodloni yn ystod y blynyddoedd diwethaf a byddai'r trosglwyddiad hwn yn ailgyflenwi'r gronfa i fodloni dyledion yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cyngorydd Sir David Thomas ac fe'u secondiwyd yn briodol a

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiadau fel y nodir uchod

Dosbarthwyd rhagor o wybodaeth gan Gyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a'r Amgylchedd yn dilyn y cyfarfod yn ôl y gofyn.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Mr Stephan Hayes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, adroddiad y Pwyllgor ar gyfer 2022/23. Dywedodd mai nod y Pwyllgor oedd cynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac felly gwella eu statws a'u hymddiriedaeth ymhlith y cyhoedd. Croesawodd y cyfle i gwrdd ag Arweinwyr Grŵp ac roedd eu hagwedd gadarnhaol at gydweithio'n galonogol iawn.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU

CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei hadroddiad blynyddol a oedd yn nodi'r heriau a'r cyflawniadau yn y Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant yn 2022/23. Mynegodd y Cyfarwyddwr, yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a'r Aelod Cabinet dros Bowys Gofalgar eu diolch i'r staff am eu holl waith drwy gydol y flwyddyn.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Amanda Jenner, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal fod y Pwyllgor wedi ystyried a chroesawu'r adroddiad. Byddai'r Pwyllgor yn edrych ar daliadau uniongyrchol ac eisiau cael diweddariad ar WCCIS. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod WCCIS yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth a oedd yn aros am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru. Diolchodd i'r Craffu am eu her adeiladol.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr am gyfleoedd gofal dydd a dywedodd y byddai hyn yn un o flaenoriaethau'r gwasanaethau eleni.

11. LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2022 - 23

Atgoffodd y Swyddog Monitro'r Aelodau fod ganddynt fuddiant personol ond nad oedd yn rhagfarnu yn yr eitem hon.

Cafodd y Cyngor fanylion gwybodaeth am y symiau a dalwyd i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn 2022/23, mewn cyflogau a threuliau.

12. HYSBYSIAD O GYNNIG - TWRISTIAETH GYNALIADWY - YMDEIMLAD O LE

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

“Ar sawl achlysur, mae'r Cyngor wedi datgan pwysigrwydd cynaliadwyedd, ac felly'n nodi ac yn llongyfarch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar fabwysiadu Bannau Brycheiniog fel ei enw swyddogol, gan adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg a breuder cynaliadwyedd yr iaith fel iaith gymunedol a thrwy hynny, efelychu polisi'r Cyngor hwn, un a gynigiwyd ac a basiwyd yn dilyn cynnig gan y grŵp Ceidwadol.

Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod cymaint o fentrau yn y sector twristiaeth yn Ne Powys wedi dweud yn ddiweddar yr hoffent weld gweithrediadau dwyieithog yn ardal Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, nodwn **nad oes gan yr un ohonynt** adran Gymraeg i'w gwefannau ac nid oes ganddynt gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r Cyngor eisoes yn credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn ein cymunedau, a bod ein henwau Cymraeg lleol yn adlewyrchu'r cyfoeth hanesyddol, ein treftadaeth, ein cynefin a'i fod yn adlewyrchu ein blaenoriaethau cynaliadwyedd presennol ac yn rhoi Ymdeimlad o Le i'r ardal dan sylw.

Mae'r Cyngor hwn yn datgan:-

1. O ystyried y brwdfrydedd newydd hwn o blaid dwyieithrwydd, rydym yn annog y sector twristiaeth i ddefnyddio enwau Cymraeg brodorol ar gyfer mentrau masnachol newydd er mwyn sicrhau'r egwyddor o Ymdeimlad o

- Le i'r eithaf, a thrwy hynny wneud y gorau o'r hyn sy'n gwneud yr ardal dan sylw mor unigryw ac arbennig. Hefyd eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg am ddim, 'Helo Blod' sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru, er mwyn darparu gwasanaeth a delwedd ddwyieithog, a'u bod yn defnyddio cynnyrch bwyd a diod o Gymru.
2. Gofynnwn i adran dwristiaeth Cyngor Powys a'r partneriaid yn y sector hwnnw, megis Cynghrair Twristiaeth Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru ac eraill dynnu sylw holl ddarparwyr y sector twristiaeth at fodolaeth gwasanaeth Helo Blod a'u bod yn ymarfer hyn fel mater o arfer da.
 3. Gofynnwn i'r adran gynllunio fabwysiadu'r egwyddor hon wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio yn y maes gwasanaeth hwn ac i dynnu sylw asiantau ac ymgeiswyr at wasanaeth Helo Blod.
 4. Rydym yn atgoffa pob menter twristiaeth sy'n derbyn grantiau cyhoeddus neu contract o Bowys neu'r sector cyhoeddus, o'r disgwyliad eu bod yn cydnabod y Gymraeg, a'u bod yn gweithredu yn unol â safonau iaith y Cyngor.
 5. Rydym yn annog dinasyddion i ddefnyddio enwau Cymraeg, hanesyddol a chyfredol ar dai ac adeiladau ac atal yr arfer o gael gwared ar enwau tai Cymreig."

O 56 pleidlais i 1

PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn yn datgan

1. **O ystyried y brwdfrydedd newydd hwn o blaid dwyieithrwydd, rydym yn annog y sector twristiaeth i ddefnyddio enwau Cymraeg brodorol ar gyfer mentrau masnachol newydd er mwyn sicrhau'r egwyddor o Ymdeimlad o Le i'r eithaf, a thrwy hynny wneud y gorau o'r hyn sy'n gwneud yr ardal dan sylw mor unigryw ac arbennig. Hefyd eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg am ddim, 'Helo Blod' sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru, er mwyn darparu gwasanaeth a delwedd ddwyieithog, a'u bod yn defnyddio cynnyrch bwyd a diod o Gymru.**
2. **Gofynnwn i adran dwristiaeth Cyngor Powys a'r partneriaid yn y sector hwnnw, megis Cynghrair Twristiaeth Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru ac eraill dynnu sylw holl ddarparwyr y sector twristiaeth at fodolaeth gwasanaeth Helo Blod a'u bod yn ymarfer hyn fel mater o arfer da.**
3. **Gofynnwn i'r adran gynllunio fabwysiadu'r egwyddor hon wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio yn y maes gwasanaeth hwn ac i dynnu sylw asiantau ac ymgeiswyr at wasanaeth Helo Blod.**
4. **Rydym yn atgoffa pob menter twristiaeth sy'n derbyn grantiau cyhoeddus neu contract o Bowys neu'r sector**

cyhoeddus, o'r disgwyliad eu bod yn cydnabod y Gymraeg, a'u bod yn gweithredu yn unol â safonau iaith y Cyngor.

- 5. Rydym yn annog dinasyddion i ddefnyddio enwau Cymraeg, hanesyddol a chyfredol ar dai ac adeiladau ac atal yr arfer o gael gwared ar enwau tai Cymreig.**

13. HYSBYSIAD O GYNNIG - Y LLUOEDD ARFOG A'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Ystyriodd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir David Meredith ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Sirol Sarah Williams.:

“Mae gan ein lluoedd arfog hanes hir a balch o wasanaeth ac ymroddiad i'r genedl hon. O leoliadau i ochr ddwyreiniol NATO i gadw gwasanaethau hanfodol i redeg yn y DU, mae personél y gwasanaeth yn parhau i wasanaethu ein gwlad gyda dewrder a rhagoriaeth. Maen nhw'n cael eu gadael i lawr gan Lywodraeth y DU. Ar ôl degawd o doriadau cyflog mewn termau real, yr argyfwng costau byw, a'r oedi i gynnydd cyflog y Lluoedd Arfog eleni, rydym bellach yn gweld Personél y Lluoedd Arfog yn cael eu gorfodi i ddefnyddio banciau bwyd, tra bod elusennau a chymdeithasau catrodol y lluoedd arfog yn parhau i ddarparu grantiau costau byw a thalebau bwyd i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae galw ar bersonél y lluoedd arfog fel mater o drefn i gwmpasu am ddiffyg gwytnwch ar draws y sector cyhoeddus ac i ddarparu gweithwyr ar gyfer rhai gwasanaethau hanfodol yn ystod gweithredu diwydiannol. Maent yn gwneud hyn yn y ffordd ymroddedig a phroffesiynol y byddem yn ei disgwyl gan ein lluoedd. Heb hawl i streicio, dyletswydd foesol eu harweinwyr yw cynnal Cyfamod y Lluoedd Arfog, a chyfrifoldeb cyrff etholedig yw cynnal eu rhan o'r rhwymedigaeth hon a mynnu bod personél ein lluoedd a'u teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen a'i haeddu.

Felly, mae'r cyngor hwn yn nodi bod:

- Mae'n destun pryder mawr fod personél y lluoedd arfog yn cael eu gorfodi i droi at fanciau bwyd.
- Mae'n destun pryder mawr fod elusennau'r lluoedd arfog a chymdeithasau catrodol yn parhau i orfod darparu grantiau costau byw a thalebau bwyd i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae'r cyngor hwn yn credu:

- Dylem gondemnio yn y termau cryfaf esgeulustra Llywodraeth y DU o'n personél y lluoedd arfog.

Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i:

- Ddarparu cymorth ariannol sylfaenol ychwanegol i bersonél y lluoedd arfog drwy gapio taliadau bwyd a llety am y 12 mis nesaf.”

O 43 pleidlais i 8 gyda 3 ymataliad

PENDERFYNWYD

1. Mae'r cyngor hwn yn nodi ei bod:

- yn destun pryder mawr fod personél y lluoedd arfog yn cael eu gorfodi i droi at fanciau bwyd.

- yn destun pryder mawr fod elusennau'r lluoedd arfog a chymdeithasau catrodol yn parhau i orfod darparu grantiau costau byw a thalebau bwyd i gyn-filwyr a'u teuluoedd,
2. Mae'r cyngor hwn yn credu bod:
 - Dylem gondemnio yn y termau cryfaf esgeulustra Llywodraeth y DU o'n personél y lluoedd arfog
 3. Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i:
 - Ddarparu cymorth ariannol sylfaenol ychwanegol i bersonél y gwasanaeth drwy gapio taliadau bwyd a llety am y 12 mis nesaf.

14. HYSBYSIAD O GYNNIG - ADOLYGIAD MAES PARCIO

Dyweddodd y cynigydd, pe bai'r Aelod Cabinet dros Bowys Wyrddach yn cadarnhau y byddai'n cael adolygiad trawsbleidiol, y byddai'n barod i dynnu ei gynnig yn ôl. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Bowys Wyrddach yr ymrwymiad hwnnw ac felly tynnwyd y cynnig yn ôl.

15. HYSBYSIAD O GYNNIG - APELIADAU TRAFNIDIAETH YSGOL

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Lucy Roberts ac eiliwyd ef gan y Cyngorydd Sir Gwynfor Thomas:

"Ym mis Hydref 2022 cefnogodd y Cyngor fy nghynnig yn unfrydol i ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran trafndiaeth ysgol am ddim lle gellid ei ddarparu heb unrhyw gost ychwanegol i'r cyngor. Ers hynny, rwyf wedi bod yn ymladd nifer o achosion unigol ar gyfer preswylwyr sydd eisoes â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol o'u dewis a ble, am resymau daearyddol, mae bysiau'n rhedeg i ddau gyfeiriad. Mae swyddogion wedi dadlau, os ydyn nhw'n hyblyg mewn un lle, y bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn hyblyg mewn mannau eraill hefyd (siawns mai dyna'r pwynt os oes modd bodloni'r meini prawf o ddim cost ychwanegol) ac wedi gwrthod apeliadau. Mae rhannu teuluoedd yn achosi pryder mawr i rieni a phlant a bydd yn cyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. Os na all aelodau gael rhyw fath o ddylanwad ar broses gwneud penderfyniadau'r cyngor, beth yw'r pwynt o fod yma.

Felly, rwy'n galw ar aelodau i gefnogi cynnig i argymhell i'r cabinet bod grŵp trawsbleidiol bach o gynghorwyr yn ymdrin ag apeliadau trafndiaeth ysgol, gyda chefnogaeth swyddog a all arwain aelodau ynghylch unrhyw gostau neu faterion ychwanegol posibl a allai godi o'u penderfyniad, ac y dylai hyn fod yn berthnasol i unrhyw apeliadau sy'n weddill ar gyfer derbyniadau 2023 a chaniatáu ail-wrandawiad o unrhyw apeliadau cam 2 ar gyfer eleni sydd eisoes wedi eu gwrthod."

Dyweddodd y Swyddog Monitro nad oedd y cynnig yn gofyn am newid y polisi, a fyddai'n gofyn am gyfnod o ymgynghori, ond i ofyn i'r Cabinet ystyried bod grŵp trawsbleidiol bach o gynghorwyr yn ymdrin ag apeliadau trafndiaeth ysgol.

O 28 pleidlais i 21 gyda 5 yn ymatal,

PENDERFYNWYD argymhell i'r cabinet bod grŵp trawsbleidiol bach o gynghorwyr yn ymdrin ag apeliadau trafndiaeth ysgol, gyda chefnogaeth swyddog a all arwain aelodau ynghylch unrhyw gostau neu faterion ychwanegol posibl a allai godi o'u penderfyniad, ac y dylai hyn fod yn berthnasol i unrhyw apeliadau sy'n weddill ar gyfer derbyniadau 2023 a chaniatáu ail-wrandawriad o unrhyw apeliadau cam 2 ar gyfer eleni sydd eisoes wedi eu gwrthod.

16.	HYSBYSIAD O GYNNIG - GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG LLYWODRAETH CYMRU A CHYFOETH NATURIOL CYMRU AR RYDDHAU ADAR HELA YNG NGHYMRU
------------	--

Ystyriodd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh:

